menter PATAGONIA

Swyddogion Maes 2011 – Disgrifiad Swydd ac Amodau Swydd

Amodau Swydd

Oriau 37 awr yr wythnos. Bydd gofyn i'r swyddog allu gweithio oriau anghymdeithasol yn achlysurol. Oherwydd natur unigryw y swydd yma fydd gofyn fod yn hyblyg.

Cyflog £700 y mis. (Cyflog Athro yn y Wladfa) Bydd y cynllun yn talu costau teithio a llety.

Gwyliau 20 diwrnod

Atebol, yn ddyddiol i Bwyllgor Datblygu'r Cynllun. Gall hefyd cysylltu efo Pwyllgor Menter Patagonia (Cymru) am arweiniad.
Lleoliad Un Swyddog yn Ardal Camwy ac un yn Ardal Cwm Hyfryd

Cyfnod Gwaith 8 i 9 mis

Dyddiad Cau Medi 9fed – Cais Drwy Lythyr a CV i meirion@menteriaithconwy.cymru247.net

Swydd Ddisgrifiad

Cefndir

Yn dilyn adroddiad Robert Owen Jones (Prifysgol Caerdydd) ar raglen dysgu Cymraeg y Wladfa mae'n amlwg fod angen cynyddu'r ddarpariaeth yn ogystal â chynnig cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yno. Heb wneud hynny ni fydd modd sicrhau fod dysgwyr yn dod yn rhugl eu Cymraeg nac o gynnal Cymraeg y rhai sydd yn parhau i'w arddel. Bydd digwyddiadau cymdeithasol hefyd yn codi proffil y Gymraeg ac yn debygol o arwain at fwy o alw am ddosbarthiadau. Dylid ystyried yr argymhellion yma fel esblygiad naturiol o'r rhaglen ddysgu presennol.

Dyletswyddau

Fel y gwyddoch, swyddogaeth y Mentrau Iaith yng Nghymru yw hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol. Bydd llawer o waith y Swyddogion yn y Wladfa yn adlewyrchu hyn.

O'n gwybodaeth o sefyllfa'r Gymraeg yn y Wladfa credwn fod y canlynol yn sylfaenol i'r hyn y dylid ei gynnig er mwyn sicrhau dyfodol i'r Gymraeg fel iaith fyw yno:

1) Cyfleoedd i Gymdeithasu trwy'r Gymraeg

Mae hyn yn hanfodol i ddatblygiad y rhai sy'n dysgu Cymraeg a'r rhai sy'n parhau i'w arddel. Heb ddigwyddiadau o'r math nid oes gan y Gymraeg ddyfodol fel iaith fyw.

- Cynnig cyngor a chymorth ynglŷn â defnydd yr iaith.
- Sicrhau cyfleoedd i bobol, yn enwedig plant a phobl ifanc, i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithio efo'r ysgolion a chanolfannau Cymraeg.
- Darparu gwybodaeth am wersi Cymraeg lleol. Gweithio'n agos efo'r Cynllun Dysgu presennol i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol.
- Edrych am bob fath o gyfleoedd i gryfhau a datblygu'r Gymraeg yn gymunedol.

2) Cyfleoedd i unigolion astudio a gweithio yng Nghymru.

Gall hyn roi cyfleoedd i unigolion ddod yn rhugl yn y Gymraeg ac arfer â'i ddefnyddio'n feunyddiol. Bydd hefyd yn creu mwy o ddiddordeb yn y Gymraeg yn y Wladfa os oes cyfleoedd i ddod i Gymru. Rydym yn ymwybodol o sawl busnes sy'n awyddus i gyflogi siaradwyr Cymraeg ond sy'n cael trafferth cael hyd iddyn nhw. Credwn y byddai modd i gwmnïau dalu am docyn awyren yr unigolion dan sylw ac efallai cymryd yr arian o'u henillion. Bydd y swyddogion yn cynorthwyo i hyrwyddo'r raglen hon ac yn cael hyd i ymgeiswyr perthnasol.

Bydd gofyn i'r Swyddogion cysylltu efo cyswllt y Cyngor Prydeinig yng Nghymru i drefnu Visa Teiar 5 ar gyfer y lleoliadau yma.

3) Cyfleoedd i unigolion o Gymru wneud gwaith Gwirfoddol yn y Wladfa efo'r Cynllun Dysgu Cymraeg ac efo'r Fenter.

Credwn ei fod yn bwysig cynnig cyfleoedd i bobl o Gymru wneud gwaith gwirfoddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn clymu i fewn efo strategaeth y Cynulliad i ddarparu mwy o gyfleoedd i'r ifanc i gael defnyddio'r Gymraeg. Bydd y swyddogion yn gyfrifol am drefnu'r lleoliadau yma ac yn ymddwyn fel pwynt cyswllt i rhai o Gymru sydd am ddod draw;

- Cynorthwyo efo'r rhaglen ddysgu, yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Cynorthwyo i drefnu digwyddiadau cymdeithasol, yn cynnwys teithiau o Gymru i gerddorion.
- Gwaith gwirfoddol cyffredinol yn yr ardal
- Cynorthwyo'r rhaglen Amgueddfeydd, hel data ayyb
- Cynorthwyo trigolion y Wladfa i sefydlu asiantaethau neu cynlluniau i gryfhau a manteisio ar y cysylltiad Cymraeg, er budd y leithyddol ac economaidd, megis Asiantaeth Twristiaeth neu Chyfryngau.
- Diweddaru y safle we.

4) Cynorthwyo i ddatblygu pwyllgor ar gyfer y cynllun fydd yn gallu cynorthwyo bobl Y Wladfa i osod amcanion eu hunan mewn i'r rhaglen a chynyddu perchnogaeth lleol ar y cynllun.

- Efo cymorth y pwyllgor lleol denu adnoddau ac nawdd i'r cynllun yn lleol er mwyn ei gynnal yn y hir dymor.